

Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

Teitl y cyfarfod:	Fforwm Rheoli Tir Cymru
Lleoliad:	Cyfarfod Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	11 Rhagfyr 2023
Aelodau a oedd yn bresennol:	Yr Athro Rhys Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd) Jon Goldsworthy, CNC Elaine Harrison, Confor Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) John Browne, CNC Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA) Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru Tim Kirk, Confor Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) Hedd Pugh, NFU Cymru Huwel Manley, CNC Lee Pritchard, Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFI) Cymru
Hefyd yn bresennol:	Sue Buckingham, CNC
Ymddiheuriadau:	Ruth Jenkins, CNC Dom Driver, CNC Rhianne Jones, CNC Sarah Hetherington, CNC Marc Williams, CNC
Ysgrifenyddiaeth:	Bronwen Martin, CNC

Eitem 1: Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau. Estynnodd Rhys groeso i Elaine Harrison, sef cynrychiolydd newydd Confor.
2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau'r Agenda.
3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cael cofnod o'r cofnodion. Bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu llunio.

Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf, y camau gweithredu a materion sy'n codi.

4. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y Grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023 a derbyniwyd eu bod yn gofnod cywir.
5. Adolygodd y grŵp y camau a oedd heb eu cymryd a chyflwynwyd diweddariadau llafar:

PG09 Medi: Dylai John Browne gadarnhau a oes yna ffigwr manwl gywir ar gyfer faint o goetiroedd a leolir ar ffermdiroedd yng Nghymru ar hyn o bryd.

- Mae John wedi siarad gydag Alex Harris, Llywodraeth Cymru. Yn ôl Alex, mae yna sawl ffordd o ddiffinio coetiroedd fferm ac mae'r sefyllfa'n eithaf cymhleth. Ond yn ôl ystadegau Forest Research, roedd yna 125,000 hectar o goetiroedd fferm yng Nghymru yn 2022. Rhannwyd y ddolen ganlynol gyda'r grŵp – [Forest Research: Forestry Statistics 2023](#)

PG10 Medi: Dylai Rachel Lewis Davies, NFU Cymru wirio a yw NFU Cymru wedi cyflwyno llythyr ffurfiol i CNC yn nodi pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r system gynllunio atal cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a rôl CNC fel ymgynghorai statudol.

- Dywedodd Rachel y byddai'n gwirio hyn eto. Anfonwyd y llythyr at yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol. Dywedodd Huwel fod Alex Davies, NFU Cymru wedi cysylltu â CNC i wneud cynnydd. Mae CNC wedi cyfarfod ag Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn gwahanol rannau o Gymru i fynd trwy'r broses. Yn y pen draw, mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r broses a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol. Hefyd, mae Tîm Rheoli Llygredd Amgylcheddol newydd CNC yn dechrau gweithio gyda rhai o'r grwpiau lleol. Dywedodd Rachel fod y Sir eisiau trefnu digwyddiad lle byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu gan CNC ynglŷn â'r rheoliadau, ond gofynnodd hefyd am gyfraniad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a CNC fel cynghorwyr statudol. Cynigiodd Huwel y gallai fod yn bwynt cyswllt i Rachel ar gyfer y mater hwn.
- Dywedodd Gareth Parry, FUW, fod yr FUW wedi cael rhywfaint o ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a'r rhwystrau cynllunio sy'n wynebu nifer o aelodau'r FUW wrth geisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer storffeydd slyri etc. Rydym wedi cael dogfen ganllaw gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd oddeutu 2 flynedd yn ôl. Dywedodd Gareth fod y ddogfen hon wedi'i rhannu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol drachefn. Fodd bynnag, nid yw byth yn nodi'n gwbl glir pryd mae cymeradwyaeth SuDS yn angenrheidiol/ddim yn angenrheidiol. Dywedodd Gareth y bydd yr FUW yn mynd ar drywydd hyn yn y flwyddyn newydd.
- O ran SuDS, dywedodd Elaine y bydd y mater yn cael ei adolygu i weld a ellir ei gymhwyso at goedwigaeth, oherwydd dyma un o'r rhwystrau o ran gwaith cynllunio. Gofynnodd Elaine a yw hyn yn cyd-fynd â chyd-destun y drafodaeth hon. Roedd Huwel yn ymwybodol o fater yn ymwneud â choedwigaeth a SuDS. Fodd bynnag, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dehongli SuDS mewn ffordd rywfaint yn wahanol. Dywedodd Huwel y byddai'n holi pwy sy'n arwain y gwaith hwnnw a pha un a oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud.

PG01 Rhagfyr: Dylai Huwel Manley / John Browne, CNC, ganfod pwy sy'n arwain gwaith ar SuDS coedwigaeth er mwyn gweld a oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud ac fel y gellir rhoi adborth i'r grŵp.

- Dywedodd John fod hwn yn faes eithaf cymhleth. Ni chaiff systemau SuDS eu cymhwyso at goedwigaeth, ond mae'n hollbwysig cael diweddariad neu ddatganiad gan y sawl sy'n arwain y gwaith.

PG11 Medi: Dylai Fraser McAuley, CLA, ddosbarthu copi o adroddiad ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

- Dywedodd Fraser nad yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto – mae'n bosibl y bydd oedi yn hyn o beth tan fis Mawrth 2024.

PG12 Medi: Dylai Jon Goldsworthy, CNC, gysylltu â chydweithwyr ynghylch a oes ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynglŷn â'r newidiadau i'r gofynion dip defaid, a dylai roi diweddariad i'r grŵp.

- Dywedodd Jon nad oes ymgynghoriad allanol yn cael ei gynnal ynglŷn â'r newid hwn – nid yw'n arferol inni ymgynghori ynglŷn â newidiadau o'r fath i amodau trwyddedau. Roedd a wnelo'r ymholiad hwn â'r nodyn gwybodaeth ynglŷn â dip defaid. Rydym wedi cyflwyno'r newid hwn er mwyn gwella'r modd yr awn ati i asesu cydymffurfiaeth, o ystyried y nifer cynyddol o gyrff dŵr wyneb sy'n methu â chyrraedd y safonau ansawdd dŵr gofynnol oherwydd diazinon. Roedd diazinon ymhlith yr elfennau a arweiniodd at y nifer fwyaf o fethiannau cemegol newydd yn nosbarthiad olaf y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn y gorffennol, nid oedd yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau roi gwybod inni pryd roeddynt yn gwaredu dip defaid, sef rhywbeth sy'n ofynnol mewn sectorau eraill, er enghraifft gwasgaru deunyddiau ar dir at ddibenion amaethyddol a gwaredu biosolidau; eisoes, rhaid rhoi gwybod inni ymlaen llaw am y ddwy elfen hyn. Felly, y bwriad oedd sicrhau'r un drefn ar gyfer dip defaid. Ar hyn o bryd, gofyniad cyfreithiol ar gyfer deiliaid trwyddedau newydd yn unig yw'r gofyniad hwn, sef y rhai a gafodd drwyddedau ers 1 Ebrill 2023 – mewn gwirionedd, mae hyn yn cyfateb i 10 o drwyddedau o blith mil o drwyddedau a reoleiddiwn. Fodd bynnag, gofynnwn i ddeiliaid trwyddedau presennol roi gwybod inni'n wirfoddol. Yn ystod ein hadolygiad nesaf o drwyddedau, ein bwriad yw cynnwys amod yn y drwydded ar gyfer y sector hwnnw, ond ni cheir amserlen ar gyfer hyn eto.
- Roedd Rachel yn siomedig nad oedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynglŷn â'r newid hwn, oherwydd mae ffermwyr yn dipio am resymau'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid. Byddai deall yr hyn a lywiodd benderfyniad CNC wedi bod yn fuddiol yn yr amgylchiadau hyn. Mae'n siomedig a chawsom gyfle i gyfrannu adborth aelodau NFU Cymru at eich proses benderfynu. Dywedodd Jon y bydd modd iddo roi gwybod am hyn i'r tîm trwyddedu.

PG02 Rhagfyr: Dylai Jon Goldsworthy, CNC, gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r ffaith na chafodd ffermwyr gyfle i gyfrannu at y penderfyniad ynglŷn â thrwyddedau dip defaid.

- Yn ôl Rachel, soniwyd am hyn yng nghyfarfod Is-grŵp y Fforwm, ond hoffem ddeall yn well beth yw dosbarthiad gofodol y methiannau honedig. Mae'n ymddangos fel

pe bai CNC wedi gwneud penderfyniad, ond nid yw'r holl wybodaeth wedi'i rhannu gyda'r diwydiant ac nid yw'n teimlo fel proses gydweithredol.

- Awgrymodd Gareth y dylai'r camau nesaf ganolbwyntio ar sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu'n gywir ac yn glir. Trafododd Gareth yr elfennau ymarferol sy'n perthyn i ddipio defaid a soniodd am amgylchiadau pan allai ffermwyr fod angen dipio'n syth. Awgrymodd Gareth fod angen cynnal trafodaeth bellach ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd yn y senarios hynny (e.e. a fydd yna ryw fath o broses *force majeure* ar gyfer sefyllfaoedd pan fydd angen dipio mewn argyfwng) a beth fydd sefyllfa'r ffermwr o safbwynt rheoleiddio.
- Ailddatganodd Lee Pritchard, CFFI Cymru, bwyntiau cynharach a siaradodd o safbwynt ffermwr – fel arfer, mae'n dipio'i ddefaid rhyw deirgwaith y flwyddyn, a gall diffyg dipio gan ffermwyr eraill effeithio ar faint o weithiau y bydd ef yn dipio'i ddefaid (nid yw dipio'n orfodol). Mae'r clafr ymhlith y problemau mwyaf sy'n wynebu ffermwyr, ac ni chawn wared â'r clefyd yn fuan oni bai ein bod yn annog/gorfodi ffermwr i ddipio'u defaid. Yn ôl Jon, mae'r broses mewn gwirionedd yn canolbwyntio ar y rhai sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac sy'n cael trwydded. Dywedodd Jon ei fod yn bwriadu dod â chyflwyniad i gyfarfod Is-grŵp y Fforwm yn ymwneud â Phrosiect Arddangos Afon Teifi; efallai fod hwn yn faes y gallwn ei archwilio mewn dalgylch peilot. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o fonitro diazinon yn wasgaredig iawn; ond yn y manau y cynhaliwyd profion, nodir y canlyniadau positif. Mae angen inni edrych yn fanylach ar hyn, a byddai'n dda o beth pe bai modd inni roi dull cydweithredol ar waith.
- Atgoffwyd y grŵp gan Rachel mai un o brif ddibenion y fforwm hwn yw sicrhau dull 'dim byd annisgwyl'. Pan fydd CNC yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ffermio, dylid mynd ati cyn gynted ag y bo modd i rannu'r penderfyniadau hynny gyda'r fforwm hwn neu'r Is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol. Mae manteision yn perthyn i hyn, oherwydd mae gennym gysylltiadau da gyda phobl ar lawr gwlad, sef pobl y gall hyn oll effeithio arnynt, a gallwn wirio dulliau/penderfyniadau ar lawr gwlad a gweld a ydynt yn rhesymegol ai peidio. Dywedodd Rachel ei bod yn gobeithio y bydd modd cydweithredu yn y fath fodd – rhywbeth na lwyddwyd i'w wneud, yn amlwg, gyda'r penderfyniad hwn.
- Gofynnodd Huwel pa ganran o ddipio defaid a wneir gan y ffermwyr eu hunain a pha ganran a wneir gan gontractwyr arbenigol. Yn ôl yr hyn mae Rachel wedi'i weld, caiff y gweithgaredd hwn ei wneud yn bennaf gan y ffermwyr. Yn y gorffennol, roedd dipio'n orfodol a byddai swyddogion lleol yn cynnal archwiliadau. Ond yn y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd mewn defnyddio contractwyr – rhywbeth a gyflymwyd yn fawr gan Brosiect Dileu Clafr Defaid Llywodraeth Cymru, lle mae'n rhaid defnyddio contractwyr proffesiynol. Ailddatganodd Rachel pa mor bwysig yw dipio defaid; mae'n arf pwysig ac mae'n hollbwysig i iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r broses drwyddedu a chost trwyddedau newydd yn enghraifft o rwystr – rhaid i bob un ohonom weithio ar y cyd fel diwydiant i fynd i'r afael â hyn. Rhaid inni 'alluogi' yn hytrach na chreu anawsterau ar adeg pan mae costau'n gyffredinol yn codi'n aruthrol.
- Atgoffwyd y grŵp gan Lee am yr heriau sy'n gysylltiedig ag argaeledd contractwyr a pha mor bwysig yw iechyd a lles anifeiliaid. Os oes modd i ffermwyr ddipio'u defaid eu hunain, yna dylid annog yr arfer hwnnw oherwydd mae yna bosibilrwydd y bydd

yna effaith ganlyniadol pe na bai un ffermwr yn yr ardal yn dipio'i ddefaid (e.e. amser, arian ac iechyd meddwl).

- Awgrymodd Rhys y gallai aelodau'r Fforwm gadw golwg ar y modd y gweithredir y newid hwn, gan adrodd yn ôl i'r grŵp am effaith y newid a myfyrio ar unrhyw ganlyniadau difwriad.

6. Soniodd Rhys am y dogfennau a'r papurau a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod.
7. Cyfeiriodd Dennis Matheson at y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a gofynnodd a oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â ffiniau'r ardal hon. Dywedodd Jon fod yr ardal yn rhan o'r ymgynghoriad. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Eitem 3. Y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth

8. Rhoddodd John Browne, CNC, ddiweddariad byr yn ymwneud â'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 18 Medi 2023.
9. Un o'r gofynion statudol yw bod gan CNC Bwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth o dan Adran 37 o Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae'r Ddeddf yn cynnwys cymalau penodol iawn ynglŷn â rôl a swyddogaeth y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol a'i aelodaeth. Ym mis Mai 2022, cyflwynwyd papur gerbron aelodau Bwrdd CNC ac aethant yn eu blaen i gymeradwyo y dylid sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth fel un o is-grwpiau Fforwm Rheoli Tir Cymru. Er mwyn i'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol allu bod yn bwyllgor gweithredol, byddai'n rhaid iddo gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn; ond yna, byddai'n gallu cyfarfod yn ôl y gofyn neu fel bo'r angen.
10. Diben y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yw cynnig cyngor i CNC ynglŷn â rhai swyddogaethau penodol yn ymwneud â choedwigaeth, yn unol â'r Ddeddf Coedwigaeth. Aeth Jon yn ei flaen i grynhoi'r egwyddorion pwysig a'r modd y bydd y Pwyllgor yn gweithredu. Dim ond CNC a all ofyn i'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol am gyngor; ni fydd ar gael i neb arall (e.e. rhanddeiliaid eraill). Rydym wedi llunio canllawiau mewnol i sicrhau mai CNC yn unig a fydd yn ceisio cyngor y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yn unol â'r Ddeddf pan fo hynny o fudd inni ac mewn amgylchiadau priodol. Yn unol â'r Ddeddf Coedwigaeth, mae'n ofynnol i CNC ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol, ond ni fydd yn rhaid inni weithredu ar unrhyw ran o'r cyngor hwnnw. Yn ein tyb ni, mae ceisio cyngor gan y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yn gyfle cadarnhaol iawn i lywio a gwella ein penderfyniadau a chynorthwyo i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Dangosodd John ddiagram a oedd yn nodi sut bydd y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yn gweithio a'r modd y caiff ei gysylltu â gweithdrefnau mewnol CNC.
11. Yn ôl Gareth, mae rheoliadau coedwigaeth yn effeithio ar amaethyddiaeth mewn sawl ffordd a gofynnodd a fydd CNC yn ceisio mewnbyn amaethyddol mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth. Os na fydd CNC yn ceisio mewnbyn o'r fath, a fydd yna gyfle i'r grŵp geisio arbenigedd annibynnol pan fo angen (nid arbenigedd yn ymwneud ag amaethyddiaeth o angenrheidrwydd). Dywedodd John fod y Pwyllgor Cyfeirio yn cynnwys arbenigwyr sy'n addas ar gyfer ystyried y mater ac a allai fynd y tu hwnt i'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ei hun, o bosibl. Yn ôl yr hyn a

bennir yn y Ddeddf, rhaid i aelodau'r Pwyllgor fod yn broffesiynol gymwys yn y pwnc a archwilir. Trafododd John enghraifft lle gellid gofyn i'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ystyried coedwigo – byddai aelodau'r Pwyllgor yn edrych ar y Ddeddf Coedwigaeth (lle ymdrinnir â rheoli coetiroedd) a byddent hefyd yn edrych ar Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Cymru) 2017 a'r rhyngweithio gyda'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol Amaethyddol.

12. Dywedodd Tim Kirk, Confor, ei fod yn arfer bod yn aelod o'r panel. Mae gwir angen ailymgynnull y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd. Roedd Tim wedi'i syfrdanu gan y ffaith fod yna reoliad statudol ar waith, ond bod y Gweinidog wedi dirwyn y Panel i ben. Yna, penodwyd Tim yn aelod o Banel Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf Coedwigaeth – ymddengys fod y panel hwn yn cyflawni nifer o'r dibenion yr oedd y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd i fod i'w gwneud (e.e. apeliadau yn erbyn CNC neu Lywodraeth Cymru yn ymwneud â choedwigaeth). Croesawodd Tim y ffaith y bydd y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yn ailymgynnull.
13. Awgrymodd Rhys y dylid rhannu gwybodaeth am aelodaeth y Grŵp Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth, os oes modd, er mwyn rhoi hyder bod y bobl o dan sylw yn ymhél â materion coedwigaeth a bod ganddynt wybodaeth a phrofiad gwirioneddol yn y maes. Dywedodd Rhys fod cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth wedi'i gynnal ar 18 Medi 2023 a bod ansawdd, ymrwymiad a brwdfrydedd yr aelodau wedi creu cryn argraff arno.

PG03 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC, ymchwilio i'r posibilrwydd y gellir rhannu gwybodaeth am aelodau'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru (sylwer: bydd angen ystyried y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)).

14. Er bod y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth yn un o is-grwpiau Fforwm Rheoli Tir Cymru, cadarnhaodd Rhys mai CNC yn unig a all gynnull cyfarfodydd. Mae Elaine Harrison yn aelod o'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol a hi yw'r cyswllt gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru. Esboniodd John mai Fforwm Rheoli Tir Cymru yw'r brif gyfundrefn ar gyfer trafod materion rheoli tir sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a choedwigaeth.
15. Dywedodd Rachel nad yw gwefan CNC yn cynnwys gwybodaeth o unrhyw fath am y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth.

PG04 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC, ymgynghori â chydweithwyr ynglŷn ag ychwanegu gwybodaeth am y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth ar wefan allanol CNC.

Eitem 4: Diweddariadau CNC

16. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd Papur Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru. Anogir yr aelodau i fwrw golwg ar y ddogfen ymlaen llaw fel y gellir gofyn cwestiynau yn y cyfarfod. Cydnabu Rhys fod llunio Papur Diweddariad o'r fath yn waith caled a diolchodd i'r rhai a oedd wedi cyfrannu ato.
17. Cyflwynodd Huwel ddiweddariad llafar ynglŷn â Chytundebau Rheoli Adran 16. Mae'r cytundebau hyn yn gytundebau rheoli pwrpasol ar gyfer tiffeddianwyr a chanddynt Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar eu tir. Cytundebau 5

mlynedd ydynt. Dros y blynyddoedd, mae nifer o'r cytundebau llofnodedig hyn wedi tueddu i fynd yn angof, ond gwelwyd tuedd ar i fyny yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Disgrifiodd Huwel y sefyllfa o ran y gyllideb. Nid ydym yn llunio Cytundebau Rheoli ar hyn o bryd ac mae CNC yn ceisio canfod ffordd o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ond rydym yn aros am gadarnhad ynglŷn â chyllidebau. Awgrymodd Rachel y byddai diweddariad ysgrifenedig yn fuddiol. Gofynnodd Rachel a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw awgrym y bydd y gyllideb ar gyfer Adran 16 yn cynyddu yn y dyfodol; heb gynnydd, mae'n debygol y bydd yna fwch o ran cyllid. Disgrifiodd Huwel y broses benderfynu mewn perthynas â'r gyllideb. O ran cyfathrebu â'r diwydiant amaethyddol, mae CNC yn gweithio ar ddeunyddiau cyfathrebu y gallwn eu rhannu gyda'r grŵp maes o law.

PG05 Rhagfyr: Dylai Huwel Manley, CNC, rannu'r deunyddiau cyfathrebu ynglŷn â Chytundebau Rheoli Adran 16.

18. Yng nghyd-destun y targed '30 erbyn 30' a'r rhwydwaith SoDdGA presennol, soniodd Rachel am gyflwyniad blaenorol mewn fforwm gwahanol; yr adeg honno, roedd mwy na hanner y safleoedd dynodedig heb Gytundeb Rheoli. Gofynnodd Rachel a yw CNC yn cwmpasu ac yn paratoi'r cynllun busnes yn effeithiol er mwyn deall faint o arian sydd ei angen i reoli'r holl safleoedd hyn – mae angen inni ddeall pa mor fawr y dylai'r gyllideb fod. Mae yna lawer iawn o uchelgais ynghlwm wrth y targedau ac mae angen i CNC gyflwyno achos gerbron Llywodraeth Cymru ar gyfer yr arian hwnnw. Dywedodd Huwel y bydd Glastir yn dod i ben ar 31 Rhagfyr. Bydd rhai wedi ymgeisio am y cynllun interim, sef Cynllun Cynefin Cymru. Rydym yn dal i geisio cael gafael ar union fanylion y gyfradd adael er mwyn inni allu mapio'r SoDdGA. Caiff trafodaethau eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r gofynion; ond ar hyn o bryd, ni wyddom fanylion economaidd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Awgrymodd Rachel y gallai CNC edrych yn ofalus iawn ar ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy pan gaiff hwnnw ei gyhoeddi. Dywedodd Huwel y bydd CNC yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Ailddatganodd Rachel ein bod angen cyllideb sy'n cyd-fynd â maint yr uchelgais.
19. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, fod un o'i gydweithwyr wedi mynychu cyfarfod twristiaeth ddoe a bod nifer o safleoedd wedi cael eu trafod, megis Ynys Las. Gofynnodd Fraser am eglurhad ynghylch a oedd hyn yn gysylltiedig â Chytundebau Adran 16. Na, oedd ateb Huwel – yn ôl pob tebyg, roedd hyn yn gysylltiedig â chanolfannau ymwelwyr a thrafodaethau ynglŷn â'r model cyflawni cyfredol.
20. Nododd Rachel y diweddariadau ysgrifenedig ynglŷn â'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal a gofynnodd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori'n gyhoeddus. Yn ôl Jon, mae CNC wrthi'n cynnal trafodaethau cynnar ynglŷn â'r adolygiad a'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gennym. Dywedodd Rachel nad yw'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad penodol i ymgynghori, ond bod yn rhaid cyhoeddi crynodeb o unrhyw ymgynghoriad a gynhelir.
21. Cyn diweddaru'r Datganiadau Ardal, gofynnodd Rachel a gynhaliodd CNC ymarfer 'gwersi a ddysgwyd'. Dywedodd Huwel fod rhai o'r Datganiadau Ardal yn cyfeirio at faterion darfodedig, a chyflwynodd rai enghreifftiau (e.e. blaenoriaethu). Fodd bynnag, newidiadau cynnil yn hytrach na newidiadau mawr a gyflwynir wrth ddiweddaru'r Datganiadau Ardal (e.e. newid y geiriad, cyfeirio at gronfeydd Ewropeaidd sy'n cyflawni meysydd gwaith allweddol etc). Croesawodd Huwel drafodaeth ynglŷn â'r mater hwn. Rydym yn ceisio cydgysylltu'r Datganiadau Ardal er mwyn sicrhau eu bod yn gyson

ledled Cymru, ond mae tirwedd Cymru yn amrywio cryn dipyn o le i le ac adlewyrchir hyn yn rhai o'r elfennau mwy lleol. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi ceisio annog yr aelodau i fynychu digwyddiadau'n ymwneud â Datganiadau Ardal, ond eu bod braidd yn estron i'r gymuned ffermio ar adegau. Efallai y byddai'n fuddiol cynnal trafodaeth o ryw fath ynglŷn â'r mater hwn.

22. Gofynnodd Rhys i'r grŵp a fyddai'n fuddiol cael cyflwyniad ynglŷn â Datganiadau Ardal yn y dyfodol, gan fynd ati o bosibl i archwilio a oes modd i'r Fforwm gyflwyno adborth ar rai o'r newidiadau arfaethedig. Awgrymodd Jon y gellid trafod Datganiadau Ardal, y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) efallai, yn y cyfarfod nesaf.

PG06 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu cyflwyniad yn y dyfodol yn ymwneud â Datganiadau Ardal, y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) o bosibl.

23. Cyflwynodd Jon ddiweddariad llafar byr yn sôn am gyfraniad CNC at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae CNC wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun. Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Anogodd Jon y grŵp i fwrw golwg ar yr ymgynghoriad ac ymateb iddo – dyma gyfle da i gyfleu pryderon a rhoi adborth ar y cynllun. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy – digwyddiadau y gall ffermwyr eu mynychu i ofyn cwestiynau.

24. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r diweddariadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan CNC cyn y cyfarfod.

Eitem 5. Diweddariadau gan yr FUW, NFU Cymru / CFFI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

25. **FUW:** Dywedodd Gareth Parry y bydd yn rhaid treulio llawer iawn o amser dros y misoedd nesaf ar yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy – y bwriad yw ymgysylltu â'r siroedd ynglŷn â hyn.

Ceir pryder mawr ynglŷn â chyllidebau amaethyddiaeth yn y dyfodol ac mae'r FUW wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd at y Prif Weinidog (llofnodwyd y llythyr hwnnw gan amryw byd o randdeiliaid eraill). Cawn weld y gyllideb ddrafft yn ddiweddarach yn y mis. Hefyd, mae Cynllun Cynefin Cymru yn y cefndir a cheir ansicrwydd ynglŷn â chymorth yn y dyfodol ar gyfer ffermio organig.

Soniodd Gareth am y cynnydd mewn costau trwyddedau dip defaid. Mae'r FUW wedi gohebu gyda Clare Pillman, CNC, ynglŷn ag union fanylion y costau, ond hyd yn hyn ni chafwyd digon o fanylion ynglŷn â'r modd mae CNC yn cyfrifo'r gyfradd fesul awr ar gyfer y nifer o oriau a gymerir i ddyroddi trwyddedau newydd. Bydd yr FUW yn treiddio ymhellach i'r mater hwn.

Mae'r FUW wedi bod yn gysylltiedig â'r Grŵp Masnachu Maethynnau a chyflwynwyd yr adroddiad gerbron y drydedd Uwchgyhadledd ar Lygredd Afonydd yr wythnos diwethaf. Rhannwyd yr adroddiad hwnnw gydag Is-grŵp y Fforwm. Mae'n adroddiad da iawn ac mae'n gosod y llwyfan o ran y nifer o feysydd y mae angen eu harchwilio ac

ymdrin â nhw cyn y gallwn hyd yn oed ystyried cyflwyno cyfundrefn masnachu maethynnau mewn dalgyloedd ACA.

26. **NFU Cymru:** Soniodd Rachel am Gynllun Cynefin Cymru a'r pryder ynglŷn â sefyllfa gyllido Glastir – ceir llawer o ddadurth ynglŷn â'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae'r uchelgais yn fawr, ond nid yw'r gyllideb gyfredol yn cyd-fynd â'r uchelgais honno, ac mae ffermwyr yn bryderus iawn.

Trafododd Rachel y gwaith ar ffosfadau y bu'n rhaid treulio llawer iawn o amser arno. Hefyd, mae NFU Cymru wedi cyfrannu at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau a'r Grŵp Technol Amaethyddol Afonydd ACA.

Mae NFU Cymru hefyd wedi cyfrannu at Sero Net 2035 ac yn ystod yr wythnosau diwethaf mynychodd NFU Cymru rai gweithdai. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi sefydlu Grŵp Cyngori Amaethyddol ar gyfer rhoi cyngor ynglŷn â Chyllideb Garbon rhif 7 – mae NFU Cymru yn edrych ymlaen at fod yn gysylltiedig â'r gwaith hwnnw yn y dyfodol.

Dros y 3-6 mis nesaf, bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ffocws mawr i NFU Cymru. Hwn fydd yr ymgynghoriad mwyaf yn ein hanes, a bydd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer ffermio dros y degawd nesaf – mae hi'n hanfodol inni sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn.

Disgwylir y bydd y canllawiau ar y Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn cael eu cyhoeddi yn yr ychydig ddiwrnodau nesaf. Bydd NFU Cymru yn edrych yn ofalus arnynt a bydd yn eu rhannu gyda'r aelodau.

Disgwylir y Papur Gwyn ar Egwyddorion Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth yn y Flwyddyn Newydd.

Bydd yr ymgynghoriad ynghylch Talwyr Taliadau yn dod i ben yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Adleisiodd Rachel bwyntiau Gareth ynglŷn â manylion y costau a dywedodd na cheir rhyw lawer o ffydd yn y system. Awgrymodd Rachel fod angen dull dilysu annibynnol, oherwydd mae'r costau'n uchel iawn – bydd y sylwadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr ymateb a gyflwynir i ymgynghoriad CNC.

Ailddatganodd Rachel fod llawer o bethau ar droed a bod angen rheoli'r llwyth gwaith yn effeithlon. Byddai'n fuddiol pe bai modd cael rhybudd ynglŷn ag ymgynghoriadau newydd y bydd angen i NFU Cymru gyfrannu atynt (e.e. ymgynghoriad posibl ynglŷn â'r Polisi Adnoddau Naturiol).

Gofynnodd Hedd Pugh a oedd yna unrhyw ddiweddariad ynglŷn â rhyddhau afancod yn Nyffryn Dyfi. Holodd hefyd a oedd yna amserlen ar gyfer ceisiadau am drwyddedau rhyddhau. Dywedodd Jon a Huwel y byddent yn gwirio hyn gyda'u cydweithwyr.

PG07 Rhagfyr: Dylai Jon Goldsworthy a Huwel Manley holi eu cydweithwyr ynglŷn â diweddariad yn ymwneud â rhyddhau afancod yn Nyffryn Dyfi.

Darparwyd nodyn gwybodaeth, ond byddai'n fuddiol cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Eglurodd Bronwen mai atebolwydd mewn perthynas ag afancod oedd testun y nodyn gwybodaeth.

27. **CFfl Cymru:** Cyflwynodd Lee Pritchard ddiweddariad ysgrifenedig byr. Bydd CFfl Cymru yn treulio llawer o amser yn edrych ar ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a bydd yn gweithio gydag NFU Cymru a'r FUW i gynnal gweithdai gyda'r aelodau i leisio'u pryderon. Hefyd, bydd CFfl Cymru yn cynnal y gynhadledd AGRI24 ym mis Ionawr, gan ganolbwyntio ar y Gadwyn Gyflenwi.
28. **Confor:** Bu'n rhaid i Elaine Harrison adael y cyfarfod. Soniodd Tim Kirk am y pryder enfawr parhaus ynglŷn â phlannu newydd a'r caniatadau a roddir. Mae'r hyn a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru yn wirioneddol druenus – wrth edrych ar y graffiau cenedlaethol, mae cyfraniad Cymru mor fach; prin fod modd ei weld. Nid yw uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â 30,000 hectar y flwyddyn yn helpu yn hyn o beth – yn syml, nid yw hyn yn bosibl. Rhaid bod yn fwy realistig ynglŷn â hyn er mwyn inni allu llwyddo. Mae'n cymryd mwy o amser i gael caniatâd cynllunio ar gyfer plannu newydd nag a gymerir i gael caniatâd cynllunio ar gyfer tŷ newydd.
29. **CLA:** Cyflwynodd Fraser McAuley ddiweddariad ysgrifenedig byr. Dechreuodd Cyfarwyddwr newydd CLA Cymru yn ei swydd yr wythnos diwethaf, sef Victoria Bond. Bydd Victoria yn cysylltu â gwahanol randdeiliaid dros yr wythnos neu'r pythefnos nesaf i'w chyflwyno'i hun. Dyma ddau faes gwaith allweddol arall sy'n ymwneud â rheoli tir: paratoi ar gyfer ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chadarnhau adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol yn barod i'w argraffu a'i ryddhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.
30. **TFA Cymru:** Adleisiodd Dennis Matheson bwyntiau Tim ynglŷn ag uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y nifer o goed a gaiff eu plannu – nid oes modd cyflawni'r uchelgais hon a dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y sefyllfa. Dywedodd Dennis ei fod wedi dweud hyn wrth Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Hefyd, gofynnodd a oedd gan Lywodraeth Cymru 'ail gynllun' pe bai 2029 yn dod a phe bai 20,000 hectar o goed wedi'u plannu yn hytrach na 43,000 hectar; diystyriwyd hyn yn llwyr.

Soniodd Dennis am drafodaethau a gafwyd yn y Ffair Aeaf. Treuliodd TFA Cymru lawer o amser yn trafod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda Llywodraeth Cymru. Er ein bod yn hapus iawn y bydd tenantiaid yn cael eu heithrio rhag y gofyniad 'gorchudd coed o 10%' os na fydd modd iddynt gael cytundeb eu landlordiaid, rydym angen yr un math o beth ar gyfer cynefinoedd, oherwydd ychydig iawn o denantiaid sydd â chynefin o 10% ac yn ôl pob tebyg byddent angen caniatâd eu landlordiaid drachefn. Yn nogfen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a welsom yr wythnos diwethaf, roedd yna chwe pheth posibl y gallai ffermwyr eu gwneud i gynyddu maint cynefinoedd; roedd pedwar o'r pethau hyn yn opsiynau â'r – nid yw hyn yn fuddiol iawn i ffermwyr ar ben yr Wyddfa ac roedd un o'r opsiynau â'r yn golygu dim mewnbynau h.y. cnydau bywyd gwyllt neu anifeiliaid hela. Mae'r trafodaethau'n parhau; ond ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno na all tenantiaid gydymffurfio.

Ceir pryder arall ynglŷn â'r modd digyswllt y bydd Taliadau Gwledig Cymru yn delio â thramgwyddau trawsgydymffurfio'n ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae hyn wedi'i ohirio, oherwydd caiff y mater ei ddargadw yng nghyfraith yr UE; ond rydym wedi cael sicrwydd y bydd dull mwy cymesur yn cael ei roi ar waith pan gyflwynir y cynllun newydd ac y bydd y dull hwnnw'n cyd-fynd â'r modd mae CNC yn delio â'r mater.

Soniodd Dennis am yr Uwchgynhadledd Ffosffadau. Mewn perthynas â masnachu credydau carbon neu ffosffadau gyda chwmnïau rhyngwladol sy'n cynhyrchu'r ddwy

elfen ac sy'n gwrthbwysu hynny trwy geisio perswadio ffermwyr i ymadael â'u credydau (yn yr achos hwn ar gyfer adeiladwyr tai), mae'r dull yn hollol wrthun – yr unig beth a wneir yw symud llygredd o gwmpas yn hytrach na'i leihau.

Eitem 6. Rhagolwg

31. Aeth Rhys ati i grynhoi rhai o'r pynciau posibl ar gyfer agendâu'r dyfodol, yn cynnwys Datganiadau Ardal, y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) o bosibl. Gofynnodd Rhys a oedd gan rywun awgrymiadau eraill.
32. Dywedodd Tim fod cyfarfodydd MS Teams yn iawn, ond nad ydynt yn llwyddo i dreiddio at y gwir faterion yn yr un modd â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Hefyd, nid ydym yn adnabod holl aelodau'r grŵp – er enghraifft, nid yw pawb wedi cyfarfod wyneb yn wyneb â'r Athro Rhys, y Cadeirydd. Roedd y cyfarfodydd wyneb yn wyneb gwreiddiol yn rhai gwerth chweil a chât'r holl waith ei gwblhau rhwng y sesiynau. Cafwyd cyfarfodydd gwirioneddol dda rhwng yr undebau a'r cynrychiolwyr tir i gyd. Gofynnodd Tim a fyddai modd i'r grŵp ystyried ailddechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, bob yn ail sesiwn o leiaf. Awgrymodd Rhys y gallem ailystyried y cydbwysedd rhwng cyfarfodydd rhithwir a chyfarfodydd wyneb yn wyneb a dywedodd y byddai'n croesawu sylwadau gan y grŵp. Yn ôl Rhys, mae'n debyg y bydd angen cynnal trafodaeth fewnol gyda CNC ynglŷn â darparu adnoddau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Efallai y byddai'n fuddiol ystyried yr hyn mae fforymau eraill yn ei wneud a gweld beth yw patrwm eu cyfarfodydd nhw.

PG08 Rhagfyr: Dylai Rhys siarad â Ruth Jenkins ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb yn ddiweddarach yn 2024.

33. Dywedodd Huwel fod manteision yn perthyn i ddwyn pobl ynghyd. Dewis arall fyddai ystyried lleoliadau addas er mwyn ceisio lleihau teithio (e.e. dau leoliad) a dod o hyd i opsiwn sy'n gweithio i bawb. Profiad siomedig yw trefnu cyfarfod a gweld mai llond llaw o bobl yn unig sy'n ei fynychu yn y cnawd a bod pobl eraill yn ymuno ag ef yn rhithwir. Roedd Rhys o'r farn fod yr opsiwn hybrid braidd yn anhrefnus. Atgoffwyd y grŵp gan Jon y bydd gan bob unigolyn farn ychydig yn wahanol ynglŷn â fformat cyfarfodydd – canfod cydbwysedd yw'r peth pwysig. Mae yna fanteision yn perthyn i gyfarfod mewn ystafell ac mae'r trafodaethau hynny sy'n digwydd y tu allan i'r agenda ffurfiol yn gallu bod yn wirioneddol fuddiol. Efallai mai priodol fyddai cynnal un cyfarfod wyneb yn wyneb bob blwyddyn, ond rhaid inni ystyried adnoddau, amser teithio, costau etc. Mae hi'n hanfodol inni ystyried faint o bobl a fydd, mewn gwirionedd, yn mynychu'r cyfarfodydd – er enghraifft, mae cryn dipyn o bobl wedi methu â mynychu'r cyfarfod hwn heddiw. Gall cyfarfodydd hybrid weithio'n dda os oes rhywun ar gael i ddelio â materion TG.
34. Cytunodd Dennis gyda sylwadau Tim ynglŷn â chynnal rhagor o gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn dal i fod ar agor, er gwaethaf y gost aruthrol; maent yn dal i gael eu gwresogi; ceir cnewyllyn staff ynddynt, ond pur anaml y cânt eu defnyddio. Cydnabu Dennis y byddai cyfarfod hybrid yn syniad da iawn.
35. Dywedodd Rhys fod yr aelodau, yn gyffredinol, o blaid cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb yn ystod y flwyddyn, ond bydd angen inni siarad â chydweithwyr o CNC ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl a gweld pa batrymau a ddefnyddir gan fforymau eraill. Gobeithio y bydd modd inni lunio cynnig ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm.

36. Yn ôl Tim, hawdd iawn yw dweud bod rhywbeth yn 'anghyfleus'. Trafododd a oes modd mynd i'r afael go iawn â swyddi heb ryngweithio â chydweithwyr cyffredinol. Dywedodd y gallai cyfarfodydd o'r fath fod yn anghyfleus, ond anogodd y grŵp i fynychu'r cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol.
37. Gofynnodd Sue Buckingham, CNC, a fyddai modd cael eitem ar yr agenda yn sôn am allyriadau amonia o du amaethyddiaeth ger safleoedd gwarchoddedig. Bydd y diweddariad yn cynnwys gwybodaeth newydd a fydd yn dylanwadu ar y mater, oherwydd yn amlwg mae'r targedau ar gyfer lleihau amonia erbyn 2030 yn prysur nesáu. Po hwyaf yr oedi, po anoddaf fydd hi i ffermwyr gyrraedd y targedau hynny. Rydym eisiau bod yn dryloyw, rydym eisiau dechrau rhannu'r wybodaeth hon ac rydym eisiau cynnal trafodaethau agored yn awr, yn y gobaith y bydd modd cyfrannu at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn sicrhau cymorth priodol i ffermwyr. Soniodd Rhys am y cyflwyniad amonia a roddwyd gan Sue a Brian yn un o gyfarfodydd Is-grŵp y Fforwm – bu'n gyflwyniad buddiol iawn.
38. Soniodd Rhys am y posibilrwydd o gael cyflwyniad gan yr Athro John Gilliland. Mae Rhys yn awyddus i glywed mwy am Strategaeth Defnydd Tir Integredig Gogledd Iwerddon – sef strategaeth mae'r Athro John wedi bod yn gysylltiedig â hi. Nid oes gan Gymru Strategaeth Defnydd Tir Integredig, ac mae Rhys yn awyddus i weld a fyddai'n fuddiol inni gyfrannu at strategaeth bosibl o'r fath ar gyfer Cymru.
39. Dywedodd Bronwen fod rhai o'i chydweithwyr wedi cysylltu â hi i gynnig pynciau posibl ar gyfer ein cyfarfodydd y flwyddyn nesaf. Cynigiwyd bwyd a ffeibr, a hefyd pridd. Atgoffwyd aelodau'r grŵp gan Bronwen y gallant anfon unrhyw eitemau posibl ati trwy e-bost.
40. Os bydd sesiwn yn cael ei chynnal ar bridd, dywedodd Rachel y byddai'n fuddiol gwahodd James Cooke, sy'n arwain rhaglen tystiolaeth pridd Llywodraeth Cymru. Mae llawer o waith wedi'i wneud ac mae'r gwaith hwnnw'n cynnig cipolwg defnyddiol ar gydestun Cymru – rhywbeth a anwybyddir yn aml. Awgrymodd Huwel y byddai'n fuddiol estyn gwahoddiad i Dr Peter Jones, CNC, hefyd. Dr Peter Jones yw ein hecolegydd a'n harbenigwr mawndiroedd ac mae ganddo ffeithluniau diddorol iawn y byddai'n fuddiol eu rhannu, yn enwedig ynglŷn ag effeithiau colledion allyriadau trwy reoli priddoedd mawn yn ddwys at ddibenion amaethyddiaeth. Dywedodd Jon fod ei dîm yn gweithio'n agos iawn gyda James Cooke a'i dîm yn Llywodraeth Cymru a dywedodd hefyd y byddai cyflwyniad ar y cyd rhwng CNC a Llywodraeth Cymru yn fuddiol iawn. Soniodd Dennis am drafodaethau a gafodd yn y gorffennol gyda James Cooke a chytunodd mai da o beth fyddai cael cyflwyniad ganddo.

PG09 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC, wahodd James Cooke, Llywodraeth Cymru i roi cyflwyniad yn ymwneud â phridd yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Eitem 7. Unrhyw Fater Arall

41. Bydd dyddiadau cyfarfodydd 2024 yn cael eu dosbarthu maes o law – anogir aelodau'r Fforwm i awgrymu pynciau trafod ac eitemau posibl ar gyfer yr agenda. A wnewch chi eu hanfon at Bronwen.
42. Gofynnodd Rachel a fyddai modd trefnu'r cyfarfod nesaf ar ôl dyddiad cau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

PG10 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC, drefnu cyfarfod nesaf y Fforwm ar ôl dyddiad cau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

43. Diolchodd Rhys i aelodau'r grŵp am eu cyfraniadau eleni a dymunodd Nadolig Llawn a gwyliau braf i bawb.

44. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Diwedd y cyfarfod